**EITEM AR YR AGENDA: 10**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU
# PANEL GWEITHREDOL

**25ain Gorffennaf 2007**

**ESTYNIADAU O DÂL SALWCH**

**Adroddiad gan Chris Enness**
**Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1. I hysbysu Aelodau o'r penderfyniadau wnaed gan y Prif Swyddog Tân yn dilyn ymgynghoriad gyda'r Cadeirydd mewn perthynas ag estyniadau o dâl salwch.

## Cefndir

2. Ers cyfarfod y Panel Gweithredol ar 21ain Mai 2007, mae pedwar estyniad o dâl salwch wedi cael eu caniatáu.

3. Mewn dau achos, roedd yr hawl i chwe mis o dâl llawn wedi dod i ben ac mae estyniad o 100% o dâl llawn wedi ei ganiatáu am gyfnod o chwe mis.

4. Mewn un achos, roedd yr hawl i dâl llawn o chwe mis wedi dod i ben ac mae estyniad tâl o 100% o dâl llawn wedi ei ganiatáu am gyfnod o dri mis.

5. Mewn un achos, daeth yr hawl i chwe mis o dâl llawn i ben a chaniatawyd estyniad o dâl ar 100% o dâl llawn tra y cwblheir proses ffurfiol yn ymwneud â'r unigolyn.

6. Yn y cyfnod dan sylw, mae tri o'r gweithwyr yn rhai llawn amser ac un yn rhan amser gyda'r Gwasanaeth.

## Argymhelliad

7. I nodi'r adroddiad.